

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 3ydd 2015 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands (Cadeirydd), Gethin Morris, Gwenda Morris, Maldwyn Jones, Alwyn Jones, Iolo Evans, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Tina Davies, Dewi Pritchard, Eifion Davies, Alwyn Roberts a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Torri coed ym mynwent Llandderfel

Gan nad oedd y prisiau i gyd wedi cyrraedd, cytunwyd i drafod y mater ym mis Rhagfyr.

### Sesiwn hyfforddiant Cyngor Gwynedd ar y Cod Ymddygiad.

Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Hydref.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd ymlaen o'r cyfarfodydd diwethaf:-

### A494 Gors y, Sarnau.

Cafwyd cadarnhad gan y Gweinidog Edwina Hart eu bod am gadw'r cyfyngiad cyflymder presennol ond gan nad oedd ganddynt unrhyw gofnod o wrthdrawiadau ar y safle nid oedd unrhyw fwrriad i gynnal gwaith diogelwch neu fesurau atal sgidio ychwanegol. Er hynny roedd y swyddogion am barhau i fonitro'r lleoliad wrth iddynt ddatblygu mesurau diogelwch ar gefnffyrdd Cymru.

### Diogelwch gyrwyr ar yr A494 ger Llanfor.

Cafwyd cadarnhad gan y Gweinidog Edwina Hart bod y swyddogion wedi cyfarfod gyda pherchnogion ystâd Rhiwlas ac am edrych ar y ffordd orau i rybuddio gyrwyr bod gwartheg yn croesi'r safle.

### Gwrych mynedfa Clwb Carafannau, Cefnddwysarn.

Roedd swyddogion Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r safle ac wedi gofyn i'r rheolwr dorri'r gordyfiant. Yn ychwanegol i hyn, ar gais y rheolwr, roedd llythyr wedi cael ei anfon i brif swyddfa'r Clwb Carafannau.

### Llwybr cyhoeddus 'Stryd Pont Faen', Glanrafon.

Cafwyd cadarnhad bod y Bartneriaeth am gysylltu â'r adran llwybrau cyhoeddus yn Cyngor Gwynedd i weld os oedd posib cynnwys y llwybr ar y rhestr cynnal a chadw y maent yn ei gael o Wynedd.

## Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd llythyr yn egluro bwriad y Cyngor i ddileu'r gwasanaeth darparu biniau halen yn yr ardal ar ôl diwedd mis Mawrth 2015 er mwyn arbed arian. Cafwyd trafodaeth am yr effaith y byddai hyn yn cael ar ddiogelwch y gyrwyr a oedd yn defnyddio'r ffyrdd gwledig yr ardal. Cytunwyd yn unfrydol i ysgrifennu yn nol i ddatgan gwrthwynebiad cryf y Cyngor Cymuned i'r toriadau.

ii) Derbyniwyd cais i anfon gwybodaeth a fyddai o gymorth i'w arolwg o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd.

iii) Rali Cymru – Gwybodaeth am daith Rali Cymru o gwmpas y Gogledd ym mis Tachwedd.

## b) Amrywiol

- i) Groundwork – Gwybodaeth am y cynllun arian cymunedol gan Tesco. Cytunwyd i basio'r wybodaeth ymlaen i bwyllgor y cae chwarae yn Llandderfel.
- ii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Gwybodaeth am y newidiadau yng nghydnabyddiaeth ariannol aelodau Cynghorau Cymuned a Thref.
- iii) Un Llais Cymru – Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Dolgellau ar y 25/11/15.
- iv) Llywodraeth Cymru – chopi o 'Newyddion Cynghorau Cymuned a Thref 2015'.

## **Materion Ariannol.**

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Pum Plwy Penllyn (cyfraniad blynyddol)
- ii) Dylan Thomas (torri glaswellt ym mynwent Llandderfel)
- iii) Deiniol Davies (agor bedd ym mynwent Llandderfel)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Neuadd Bro Derfel a'r Groes Goch Prydeinig. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

## **Unrhyw Fater Arall**

Newid enw annedd.

Daeth i sylw'r Cyngor bod perchennog Cilan, Llandrillo wedi newid enw'r annedd i 'River Catcher'. Cytunwyd i ysgrifennu at Cyngor Cymuned Llandrillo i fynegi siom y cynghorwyr bod yr enw traddodiadol Cymreig wedi cael ei newid.